**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**03.07.01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0036 Mynd i’r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd yng Nghymru/Tackling Health Inequalities in Wales

25 Jun 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

1 Subscriber:

Janet Ryder

*Mynd i’r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd yng Nghymru*

*Mae’r Cynulliad hwn yn gresynu bod cynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU ond yn gwneud ychydig i fynd i’r afael â’r anghydraddoldebau iechyd dwys sy’n bodoli yng Nghymru, drwy beidio â darparu ar gyfer gwahardd hysbysebu tybaco, ehangu gofal personol rhad ac am ddim i’r henoed a chomisiynu cenedlaethol i ddod â’r loteri o ddarparu gwasanaethau yn ôl cod post i ben yng Nghymru.*

*Tackling Health Inequalities in Wales*

*This Assembly regrets the UK Government’s legislative proposals for Wales do little to tackle the severe health inequalities that exist in Wales, by not providing for the banning of tobacco advertising, the extension of free personal care for the elderly and national commissioning to end the postcode lottery of service provision in Wales*

## OPIN-2001-0035 Cefnogaeth i ddynodi Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr yn Lletem Las/Support for the Green Wedge classification of Island Farm, Bridgend

21 Jun 2001 Raised by Peter Black, Alun Cairns, Janet Davies, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip. Ther

4 Subscribers:

Janet Ryder
David Melding
Glyn Davies
Kirsty Williams

*Cefnogaeth i ddynodi Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr yn Lletem Las.*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r cynnig yn y Cynllun Datblygu Unedol drafft ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr i ddynodi Island Farm yn Lletem Las, ac yn galw am ei hailsefydlu ar unwaith er mwyn:*

*- diogelu harddwch naturiol y fynedfa i un o ardaloedd cadwraeth mwyaf deniadol y rhanbarth, Merthyr Mawr; a*
*- gwarchod rhag datblygu ar safleoedd maes glas ym Mhen-y-bont ar Ogwr.*

*Support for the Green Wedge classification of Island Farm, Bridgend*

*This Assembly supports the Green Wedge classification of Island Farm proposed in the draft Unitary Development Plan for Bridgend and calls for its immediate reinstatement to;*

*- preserve the natural beauty of the entry to one of the region's most attractive conservation areas, Merthyr Mawr; and*
*- protect against the development of green field sites in Bridgend*

## OPIN-2001-0034 Anrhydeddu Sylvia Pankhurst a Mudiad y Bleidlais i Ferched/ Honouring Sylvia Pankhurst and the suffrage movement

18 Jun 2001 Raised by Ann Jones

7 Subscribers:

Janet Ryder
Alison Halford
Dafydd Wigley
Gareth Jones
Tom Middlehurst
Ron Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Anrhydeddu Sylvia Pankhurst a Mudiad y Bleidlais i Ferched*

*Mae'r Cynulliad hwn yn nodi bod 20 Mehefin yn ben blwydd y dyddiad pan orfodwyd y Prif Weinidog Rhyddfrydol Herbet Asquith AS, a oedd yn gwrthwynebu rhoi'r bleidlais i ferched, i gwrdd â dirprwyaeth o ferched dosbarth gweithiol o ddwyrain Llundain, yn sgil bygythiad Sylvia Pankhurst o streic newyn a syched am gyfnod amhenodol. Hon oedd yr unig ddirprwyaeth o ferched a dderbyniodd y llywodraeth yn ystod yr ymgyrch am y bleidlais.*

*Mae'r Cynulliad hwn yn talu teyrnged i'r aberth a wnaeth dynion a merched i ennill y bleidlais. Credwn ei bod yn arbennig o bwysig i goffáu'u brwydr heddiw, o ystyried y niferoedd dychrynllyd o isel o bobl a bleidleisiodd mewn etholiadau diweddar yng Nghymru.*

*Honouring Sylvia Pankhurst and the suffrage movement*

*This Assembly notes that June 20th is the anniversary of the date when Liberal PM Herbert Asquith, an opponent of women's suffrage, was coerced into meeting a delegation of working class women from East London, following Sylvia Pankhurst's threat of an indefinite hunger and thirst strike. This was the only women's deputation received by the government during the suffrage campaign.*

*This Assembly pays tribute to the sacrifices that men and women went through to win the vote. We believe it is especially important to commemorate their struggle today, given the alarmingly low levels of turnout in recent elections in Wales.*

## OPIN-2001-0032 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr/ Diabetes National Service Framework

16 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

3 Subscribers:

Janet Ryder

Kirsty Williams
Brian Hancock

*Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu'r Llw Clefyd Siwgr a luniwyd gan Diabetes UK, sy'n tynnu sylw at pa mor ddifrifol yw'r clefyd siwgr fel her ym maes iechyd, a'i bod yn bwysig bod*

*- Yr afiechyd yn cael ei ganfod yn gynnar*
*- Y safonau gofal yn gyson*
*- Y gofal yn canolbwyntio ar y cleifion*
*- Digon o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau clefyd siwgr*

*Mae'r Cynulliad hwn hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Fframwaith yn adlewyrchu gwir anghenion pobl sy'n dioddef o'r Clefyd Siwgr, fel y nodir yn y Llw, a hefyd sicrhau bod ymrwymiadau penodol yn cael eu gwneud mewn perthynas ag adnoddau.*

*This Assembly welcomes Diabetes UK's Diabetes Pledge, which highlights the seriousness of diabetes as a health challenge, and the importance of:*
*- Early diagnosis*
*- Consistency of care standards*
*- Patient-centred care*
*- Adequate resources for diabetes services*

*This Assembly also welcomes the Government of Wales commitment to develop a Diabetes National Service Framework. It calls on the Government of Wales to ensure that the Framework reflects the real needs of people with Diabetes, as identified in the Diabetes Pledge, and also to ensure that specific resource commitments are made.*

## OPIN-2001-0030 Gwahardd Gwerthu Coluron Newydd sydd wedi'u profi ar anifeiliaid/ Ban on Sale of New Cosmetics that have been tested on animals

10 May 2001 Raised by Christine Gwyther

3 Subscribers:

Janet Ryder
Kirsty Williams
Karen Sinclair

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bwriad yr Undeb Ewropeaidd i gyfnewid y*

*gwaharddiad ar werthu coluron newydd sydd wedi'u profi ar anifeiliaid am waharddiad ar gynnal profion ar anifeiliaid. Byddai hynny'n golygu y byddai cwmnïau coluron yn gallu cynnal profion ar anifeiliaid mewn labordai y tu allan i'r UE a pharhau i werthu'r cynhyrchion hynny yn yr UE. Mae'r Cynulliad hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i geisio cadw'r gwaharddiad ar werthu coluron newydd sydd wedi'u profi ar anifeiliaid o fewn yr UE ac yn arbennig yng Nghymru, a chefnogi gwaharddiad ar gynnal profion ar anifeiliaid at ddiben profi sylweddau nad ydynt yn hanfodol.*

*The National Assembly for Wales notes the intention of the European Union to replace the ban on sales of new cosmetics which have been tested on animals with a ban on animal testing. This would enable cosmetics companies to relocate testing on animals to laboratories outside of the EU and continue to sell such products within the EU area. This Assembly calls upon the UK Government to seek a retention of the ban on sale of any new cosmetics tested on animals within the EU and particularly in Wales, whilst supporting a ban on animal testing for inessential substances.*

## OPIN-2001-0029 Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth/ Autism Awareness Week

09 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

6 Subscribers:

- Janet Ryder
- Kirsty Williams
- Rhodri Glyn Thomas
- Geraint Davies
- Brian Hancock
- Owen John Thomas MA

***Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi bod tua 27,300 o bobl yng Nghymru ac arnynt anhwylder sbectrwm awtistiaeth sy'n gorfod wynebu oedi hir yn eu diagnosis ac yna gymorth addysgol annigonol a phrinder gwasanaethau cymorth i oedolion. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod anghenion pobl ar y sbectrwm awtistig a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ar gydweithio'n***

***effeithiol i hwyluso gwasanaethau cymorth priodol a hybu ymwybyddiaeth; ac mae'n croesawu ymgyrch y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol yng Nghymru ‘Action for Autism’ sy’n tynnu sylw at anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistig a’u gofalwyr yng Nghymru.***

***The National Assembly notes, the estimated 27,300 people in Wales with an autism spectrum disorder who currently experience long delays in diagnosis followed by inadequate support in education and few support services as adults and calls on the Government of Wales to recognise the needs of people on the autistic spectrum and to issue guidance to local and health authorities on effective joint working to facilitate appropriate support services and raise awareness; and welcomes the National Autistic Society Wales campaign 'Action for Autism' which highlights the needs of people with an autistic spectrum disorder and their carers in Wales.***

## OPIN-2001-0026 Y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth/ The General Agreement on Trade in Service

03 May 2001 Raised by Peter Black

5 Subscribers:

Janet Ryder
Kirsty Williams
John Griffiths LLB
Phil Williams
Gareth Jones

*Mae’r Cynulliad yn croesawu’r datganiad ym Mhapur Gwyn diweddar y Llywodraeth ar Globaleiddio, sy’n cydnabod rôl y llywodraeth o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol yn cael eu darparu i bawb; yn nodi bod trafodaethau’n cael eu cynnal er mwyn ehangu*

*cwmpas y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth (GATS) y WTO; bod y GATS yn berthnasol i bob gwasanaeth y mae modd ei fasnachu, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, os cânt eu darparu'n fasnachol neu mewn cystadleuaeth â chyflenwyr eraill; bod y GATS yn berthnasol i bob lefel o'r llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol; ac yn galw ar y Llywodraeth i asesu'r effaith tebygol y bydd ehangu'r GATS yn ei gael ar ddarparu gwasanaethau allweddol.*

*The Assembly welcomes the statement in the Government's recent Globalisation White Paper recognising the role of government in ensuring basic services are provided to all; notes that negotiations to expand the reach of the WTO's General Agreement on Trade in Service (GATS) are underway; that the GATS applies to all trade-able service, including public services, if they are provided commercially or in competition with other suppliers; that the GATS applies to all levels of government, including local authorities; and calls for the Government to assess the likely impact of the extension of the GATS on the provision of key services.*